



Diweddariad Cymunedol

Gwanwyn 2021



Helo a chroeso

i rifyn y Gwanwyn 2021 o'r Diweddariad Cymunedol oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydyn ni'n dal mewn cyfnod hynod amhendiant, yn wir prin y bu yna gyfnod tebyg i'r deuddeg mis diwethaf yn holl hanes Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dyw hi ddim wedi bod yn gyfnod hawdd yn y Parc, gyda Covid-19 a'r holl newidiadau eraill sydd wedi bod yma. Ond rydyn ni'n symud ymlaen ac mae pethau i'w gweld yn llawer mwy gobeithiol erbyn hyn. Rydyn ni wedi llwyddo i benodi Cyfarwyddwr Pontio – Stephanie Evans, a fydd gyda ni tan fis Gorffennaf. Rydyn ni hefyd bron â gorffen y broses o benodi Prif Weithredwr newydd ac yn edrych ymlaen at gyflwyno'r ymgeisydd llwyddiannus yn ein cylchlythyr cymunedol nesaf.

Rydyn ni'n disgwyl tymor ymwelwyr prysur iawn, a chroesawu ymwelwyr newydd sy'n awyddus i ddarganfod harddwch ein Parc Cenedlaethol. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i wneud yn siwr ein bod yn barod, bod gennym ni ddigon o bobl i helpu a bod pob darpariaeth yn barod.

Os hoffech chi fod ar ein rhestr bostio, cysylltwch â'n Tîm Cymunedol trwy'r A-Y o wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr hwn hefyd ar gael ar lein ar: www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol/

Y Cyngorydd Gareth Ratcliffe, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Croeso cynnes i Stephanie Evans

Dechreuodd Stephanie yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Pontio ar 8 Mawrth nes penodi Prif Weithredwr newydd.

Meddai Stephanie "Rwyf wrth fy modd yn ymuno ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am yr ychydig fisoedd nesaf fel Cyfarwyddwr Pontio. Rwy'n cael fy seconddio o'm swydd barhaol fel Pennaeth Creu Lleoedd, Dylunio a Chyngor Arbenigol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, lle rwyf wedi gweithio am 19 mlynedd, byth, mewn gwirionedd, ers i mi adael fy swydd fel Pennaeth Rheoli Datblygu yr Awdurdod yn 2003. Rwyf wedi byw gyda'm teulu ychydig i'r de o'r Bannau neu yn y Parc ers 32 mlynedd.

Bydd yna ragor o newid ac o heriau o'n blaen wrth i ni ddechrau symud i'r heulwen dros yr haf, rwy'n hyderus y bydd gan Fannau Brycheiniog ystyr o'r newydd i bobl mewn byd sy'n newid cymaint. Gyda harddwch ac ysblander y tirwedd yn cynnig manteision gwirioneddol i iechyd a llesiant i gymunedau'r Parc, de Cymru a thu hwnt fe fyddaf i'n gweithio'n agos gyda staff yr Awdurdod, partneriaid, rhanddeiliaid, trigolion ac ymwelwyr er budd y lle hyfryd hwn a'i gymunedau.



Yn y rhifyn hwn

- T2** Rhaglen Dalgylch Mega Bannau Brycheiniog Fideos Llysgenhadon Ifanc
- T3** Adroddiad Llesiant Newydd Prosiect Bywydau Iach Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored
- T4** Partneriaeth Amgylchedd Hanesyddol Paneli Dehongli Ffordd Cymru
- T5** Elmwydd Goffa i Wardeiniaid Coed Hyrwyddwr Newydd Gwenyn Gyfeillgar
- T6** Gwobr Archseren Eco Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol
- T7** Adolygiad Newydd o Safleoedd Bywyd Gwyllt Angen Grant?
- T8** Podlediadau Syllu ar y Sêr Y Côt Cefn Gwlad Newydd Ymgynghoriad y Cynllun Rheoli
- T9** Digwyddiadau a Gwybodaeth A-Y yr Awdurdod

Cyflwyno Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr Newydd y Parc Cenedlaethol



AMANDA BRAKE

"Helo bawb, fi yw Amanda ac rwyf wrth fy modd yn dechrau ar fy ngwaith fel Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol fis Ebrill 2021.

Rydw i wedi gweithio i nifer o elusennau yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gydlynu prosiectau gwirfoddoli a datblygu. Rwy'n gobeithio y bydd fy sgiliau a'm profiad yn ddefnyddiol yn fy swydd newydd.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at ddod i adnabod gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol ac at ddatblygu cyfleoedd newydd i bobl gymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod.

Ac rwy'n edrych ymlaen at ddod i adnabod rhai ohonoch chi yn y dyfodol! "

Cofiwch edrych ar wefan yr Awdurdod i weld y diweddaraf ynghylch cyfleoedd i wirfoddoli.

www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/volunteering/



Dalgylch Mega Bannau Brycheiniog – partneriaeth ar gyfer diogelu ein dŵr yfed

Rhaglen yn cael ei harwain gan Dŵr Cymru yw Dalgylch Mega Bannau Brycheiniog gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn bartner pwysig.

Mae'n annog agwedd ragweithiol at ddiogelu ansawdd dŵr yfed, gan ddod ag amrywiaeth o bartneriaid at ei gilydd i dalu sylw i broblemau cyffredin, a fydd o fudd i'r gymuned gyfan. Bydd y rhaglen, sy'n dilyn terfynau'r Parc Cenedlaethol, yn datblygu syniadau a phrosiectau ledled y Bannau a fydd o help i wella ansawdd dŵr yfed yn ei ffynhonnell cyn iddo gyrraedd y gwaith trin dŵr.

Un prosiect yw Prosiect Cymunedol a Thirwedd Taf Fechan, menter sy'n anelu nid yn unig at wella a diogelu ansawdd dŵr yfed yng nghronfeydd Pontsticill a Phentwyn ond hefyd at gyfrannu at lesiant y gymuned leol ac iechyd y cefn gwlad.

Mae'r Bartneriaeth wedi chwilio'r byd i gyd am y syniadau gorau ac, erbyn hyn, mae'n arbrofi gyda rhai syniadau ei hunan. Os hoffech chi ganfod rhagor ynghylch Dalgylch Mega Bannau Brycheiniog, ewch i wefan: <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/watersource/brecon-beacons-mega-catchment>


Cymerwch olwg ar fideos Llysgennad Ifanc ein Parc Cenedlaethol

Yn dilyn creu'r pecyn Llysgennad Ifanc y Parc Cenedlaethol ar ddechrau'r cyfnod clo, erbyn hyn rydyn i'n gwneud fideos byr i ysbrydoli gweithgareddau creadigol lle mae dysgu yn yr awyr agored yn greiddiol.

Maen nhw'n fan cychwyn gwych i athrawon, teuluoedd a grwpiau cymunedol. Mae'r themâu'n dymhorol ac yn amserol – er enghraifft, gaeaf gysgu, celf naturiol, coed, adar, anifeiliaid y nos ac mae hyd yn oed Rygbi'r Chwe Gwlad yn cael ei grybwyll! A DIOLCH YN FAWR arbennig i deulu'r Thomas am eu help gwych yn ffilmio'r gweithgareddau!

Mae'r gweithgareddau dwyieithog, cyffrous, yn cael eu creu'n rheolaidd wrth i ni ymateb i'r ffordd rydyn ni'n cysylltu â phobl ar lein. Maen nhw ar gael ar dudalen Facebook Awdurdod y Parc ac ar ein gwefan <https://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/gwobr-llysgennad-ifanc-y-parc-cenedlaethol-bannaubrycheiniog/>





Adroddiad llesiant amserol ar gyfer adfer ôl-Covid.

Adroddiad yw 'Deall buddion iechyd a llesiant Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer cymuned ar ei gyrion' yn seiliedig ar Ferthyr Tŷful a ysgrifennwyd gan Dr Sara MacBride-Stewart a Joshua Headington. Mewn partneriaeth gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mae'n cynnwys neges gan Aelod Hyrwyddwr yr Awdurdod dros Gymunedau Cydnerth, Christopher Coppock. Mae'r adroddiad yn dangos yr amgylchedd bositif y mae'r Parc Cenedlaethol yn ei ddarparu i'w gymunedau lleol ond hefyd yn dangos rhai o'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar fynediad ato ac at ei ddefnydd. Yn cael ei ariannu gan Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd, cynhaliwyd yr astudiaeth cyn y pandemig Covid, a achosodd oedi - ond â'i gwnaeth yn fwy perthnasol.

Meddai Sara MacBride-Stewart, "Daeth yr ysbryd cymunedol ym Merthyr yn fyw drwy rannu syniadau a chyfleoedd i fynd at ei fannau awyr agored. Erbyn hyn, heb amheuaeth, mae gwerth bod yn yr awyr iach wedi dod yn rhan o'r drafodaeth gyhoeddus. Mae'n amserol rhyddhau'r adroddiad. Cefnogir ei ganfyddiadau gan ein profiad ni o'r cyfnodau clo, ac er yr ymddengys ein bod wastad wedi gwybod cymaint oedd manau fel ein Parciau Cenedlaethol yn cael eu gwerthfawrogi, mae gofyn i ni erbyn hyn ganfod ffyrdd newydd o dalu sylw i fynediad ac anghyfartaledd 'gwyrdd'.

Mae'r adroddiad ar gael ar wefannau Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd.

www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau
<https://www.cardiff.ac.uk/cylsustainable-places>



Rhai o'r rhai oedd yn cymryd rhan yn Bywydau Iach gyda Susan a Francesca

Sesiynau amgylcheddol ar lein yn taro deg gyda'r Prosiect Bywydau Iach

Mwynhaodd hyd at 15 o'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y Prosiect Bywydau Iach sesiynau wythnosol ar lein ynghylch y Parc Cenedlaethol, yn cael eu darparu gan Francesca Bell o Dîm Cymunedau Cynaliadwy'r Awdurdod.

Mae'r prosiect hwn ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ym Mhowys yn hyrwyddo hunan eiriolaeth, annibyniaeth, a datblygu ffordd o fyw iach a hapus, yn cael ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan, fel arfer, yn hoffi mynd i'r awyr iach ond, yn ystod y cyfnod clo presennol, yn cymryd rhan yn y sesiynau ar lein i dysgu ynghylch nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, gofalu am yr amgylchedd a'r coed, planhigion, adar, mamaliaid a'r pryfed sydd i'w gweld yn yr ardal. Roedden nhw hefyd yn gwyllo rhai fideos o waith ymarferol y gallen nhw ei wneud gartref, fel plygu gwiall a garddio bywyd gwyllt. Meddai Susan Deval, Cydlynnydd y Prosiect, "Roeddwn i'n gallu gweld bod pawb yn talu sylw ac wrth eu bodd. Roeddwn i'n llawn edmygedd o'u gwybodaeth. Mae hynny'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol!"

Mae'r grŵp yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn rhai teithiau cerdded a gweithgareddau gyda'r Tîm Cymunedol yn nes ymlaen yn y flwyddyn os bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi.

Os ydych chi'n sefydliad cymunedol ac â diddordeb mewn teithiau cerdded a gweithgareddau yn y Parc Cenedlaethol o dan ein rhaglen cynhwysedd cymdeithasol, cysylltwch â Francesca Bell, Swyddog Datblygu Cymunedol francesca.bell@beacons-mpa.gov.uk Ffôn 07854997530

Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru 19 - 25 Ebrill 2020

Mae hyn yn adeg arbennig i fynd i'r awyr iach a gweld yr holl gyfleoedd arbennig sydd yna ar ein stepen drws i ddysgu yn yr awyr agored bob dydd.

Yr wythnos hon, byddwn yn datlu'r lle arbennig sydd gan ddysgu yn yr awyr agored mewn addysg, iechyd a llesiant yng Nghymru. Cofiwch ymuno yn yr hwyl gyda'ch cymuned, gallech ddefnyddio rhai o'r syniadau sydd yn adnoddau ein Llysgenhadon Ifanc ein Parc Cenedlaethol, neu weld y rhaglen gyfan o beth sy'n digwydd ledled Cymru ar cy.walescouncilforoutdoorlearning.org/

Mae tîm Addysg Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn edrych ymlaen at gefnogi'r ymgyrch gyffrous hon. Maen nhw'n annog pob ysgol a chymuned i gymryd rhan, os gallan nhw! Cofiwch rannu eich holl weithgareddau dysgu yn yr awyr agored yn ystod yr wythnos arbennig hon drwy'r cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio hashtagiau #WalesOutdoorLearningWeek #WythnosDysguAwyrAgored a #breconbeacons.

Am fanylion pellach am weithgareddau ac adnoddau'r tîm Addysg, edrychwch ar www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/



Sefydliad Cymunedol newydd ar gyfer Bro'r Sgydau

Cafodd Bro'r Sgydau Cymru, Sefydliad Corfforedig Elusennol ei ffurfio ar ddechrau 2021 fel corff i gynrychioli'r cymunedau yn yr ardal.

O'r blaen, ychydig o gyfle oedd yna i drigolion gael dweud eu dweud ynglŷn â beth oedd yn digwydd yn eu cymunedau. Bydd y sefydliad hwn yn rhoi cyfle i wneud hynny drwy fod yn aelod cyfartal o Bartneriaeth y Sgydau. Mae hefyd yn gallu nodi a rhedeg prosiectau a mentrau er budd yr ardal.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, bu Cyngor Cymunedol Ystradfellte, gyda chefnogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chyllid oddi wrth Pen-y-Cymoedd, yn rhedeg prosiect dichonoldeb am flwyddyn gydag ymgynghorwyr Hafren Gwy. Roedd y prosiect yn ymchwilio i weld a fyddai sefydliad megis hwn o fudd i'r ardal a pha ffurf y dylai ei gymryd. Diolch i'r drefn, llwyddwyd i ymgynghori'n bersonol cyn y cyfnod clo cyntaf, ond parhaodd y prosiect ar lein ac erbyn hyn mae ganddo fwrdd o un deg tri o ymddiriedolwyr ymroddedig a llawn egni.

Mae cymunedau Pontneddfechan, Ystradfellte, Penderyn, Glyn-nedd, Melincourt a Thawe Uchaf yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd.

Mae'r prosiectau cyntaf wedi'u nodi ac mae'r rhain yn cynnwys datblygu presenoldeb ac adnabyddiaeth ddigidol a hefyd Brosiect Adfer Natur.



Pen y Crug, Aberhonddu © Mark Burnett

Gweithio gyda'n gilydd i ofalu am ein treftadaeth

“Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adlewyrchiad ffisegol o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru – etifeddiaeth werthfawr y mae'n rhaid i ni ofalu amdani a'i throsglwyddo i'n plant er mwyn iddynt ei charu, ei thrysori a'i mwynhau.” (Yr Arglwydd Ellis Thomas, Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth 2018).

Mae rhai o dirweddau, safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol gorau a thrysorau pennaf Cymru i'w canfod yn ein Parc Cenedlaethol, ond maen nhw'n wynebu pwysau cynyddol gan gynnwys newid hinsawdd a newid yn y patrymau o ddefnyddio a datblygu tir.

Er mwyn helpu i ddatlu, cadw a gwella'n hamgylchedd hanesyddol, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweithio i ddatblygu partneriaeth wirfoddol newydd o sefydliadau treftadaeth a grwpiau cymunedol. Bydd Partneriaeth Amgylchedd Hanesyddol Bannau Brycheiniog yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o arwyddocâd ein hamgylchedd hanesyddol, hyrwyddo rheoli cadwraeth a chefnogi mentrau adfer natur a llesiant.

Y bwriad yw ffurfio grŵp craidd i ddatblygu'r bartneriaeth a bydd fforwm partneriaeth ehangach yn cael ei sefydlu i gyfarfod o dro i dro.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â HEAP@beacons-npa.gov.uk.



Blaen Glyn Tarell



Craig Cerrig Gleisiad

Datgelu rhai o gyfrinachau yr A470

Wrth i ni ara' deg ymddangos o'n gaeafgwsq a'r cloi mawr diweddara' bydd mwy a mwy ohonom yn crwydro'r Parc, pan fydden ni'n cael gwneud.

Cyn bo hir gobeithiwn ail-gyfarwyddo'n hunain gyda'n hoff lecynnau a darganfod rhai newydd, rhai ond ychydig oddi ar yr A470. Wrth i chi fentro ar y daith gyfarwydd yna i'r de tua Chaerdydd efallai y sylwch ar baneli dehongli newydd ar hyd y ffordd. Cyn bo hir bydd 7 panel newydd mewn lleoliadau amrywiol yn datgelu i'r rheiny sy'n stopio ar y ffordd rhywfaint am y dreftadaeth a'r dirwedd lleol a thaith gerdded y gallen nhw ei fwynhau o'r llecyn. Diweddgo i brosiect Ffordd Cymru yw'r paneli yma, sydd hefyd wedi ariannu 4 carreg cerdd mewn lleoliadau eraill ger y lôn a cherflun a cherflun o Farcud Coch y tu allan i Ganolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.



Wardeiniaid Coed Bannau Brycheiniog yn derbyn Llwyfen Goffa gan y Cyngor Coed

I ddatlu 30 mlynedd o wardeinio coed, mae'r Cyngor Coed wedi cyflwyno 30 o goed Llwyfen sydd ag ymwrthedd i haint, i'w plannu gan wardeiniaid coed gwirfoddol.

Cafodd Wardeiniaid Coed Gwirfoddol Bannau Brycheiniog, sydd newydd ei ffurfio, eu dewis i dderbyn un o'r coed ac maen nhw'n edrych ymlaen at ei phlannu'n yn fuan. Y goeden yw Llwyfen Ulmus 'New Horizon' sydd ag ymwrthedd llwyr i Glefyd Llwyfen yr Iseldiroedd, sy'n addas ar gyfer pob math o bridd, ag ymwrthedd i amodau trefol a gwledig, i amodau oer, poeth a gwyntog iawn ac sydd, felly, yn berffaith ar gyfer Bannau Brycheiniog.

Meddai Sam Harpur, Warden Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chydlynedd Wardeiniaid Coed Bannau Brycheiniog, "Roedd coed Llwyfen yn nodwedd amlwg o Fannau Brycheiniog ar un adeg ac mae colli cymaint i Glefyd Llwyfen yr Iseldiroedd wedi effeithio cryn dipyn ar y tirwedd. Bydd y nod o blannu rhywogaethau o Llwyfen ag ymwrthedd nid yn unig yn helpu i amlygu plannu coed yn y Parc Cenedlaethol ond hefyd, gobeithio, yn ysbrydoli plannu mwy o goed Llwyfen yn y dyfodol a ddaw yn nodwedd gyffredin unwaith eto o'r tirwedd. Bydd plannu'r goeden Llwyfen hon hefyd yn datlu cychwyn perthynas rhwng y Cyngor Coed ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog."

Byddwn yn recriwtio Wardeiniaid Coed Gwirfoddol yn ddiweddarach eleni. Bydd y broses yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.



Sam Harpur gyda'r goeden Llwyfen

Blodau gwyllt brodorol newydd i goetir Parc Gwledig Craig-y-nos

Cyn bo hir, bydd Parc Gwledig Craig-y-nos yn edrych hyd yn oed yn harddach gyda miloedd o blanhigion a bylbiau blodau gwyllt coetir brodorol newydd.

Cyflwynodd Paul Chapman, Warden a Rheolwr Safle Craig-y-nos a thîm ecoleg Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gais llwyddiannus i gynllun 'Gwyrddu'r Ystâd Cyhoeddus' Llywodraeth Cymru a dalodd am y plygiau a'r bylbiau. Yn ystod y misoedd i ddod bydd y rhain yn cael eu plannu gan Paul a gwirfoddolwyr Craig-y-nos er budd bywyd gwyllt ac ymwelwyr â'r Parc Gwledig. Meddai Paul Chapman: "Cafodd y rhywogaethau o blanhigion eu dewis er mwyn dod â bywyd a lliw i ymylon y coetir sy'n ymylu ar ddolydd a llwybrau'r Parc Gwledig. Mae'r planhigion a'r bylbiau'n cael eu tyfu yn y DU ac yn dod gyda'u gwarant iechyd eu hunain. Maen nhw i gyd yn addas ar gyfer y lleoedd maen nhw'n cael eu plannu ac yn wych ar gyfer pryfed a pheillwyr, rhai â'u gwreiddiau'n ddwfn mewn hanes a rhai'n blanhigion meddygol traddodiadol. Mae'n rhan fwyaf yn fach iawn ac heb flodeuo, ond bydd pob un i'w gweld gydol y flwyddyn."

Cyflwyno Hyrwyddwr Caru Gwenyn ar gyfer Bannau Brycheiniog

Mae Swyddog Partneriaeth Natur Lleol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Maria Golightly, erbyn hyn yn Hyrwyddwr Caru Gwenyn Bannau Brycheiniog. Menter yw Caru Gwenyn sydd wedi'i hanelu at gymunedau, ysgolion, cynghorau tref a chymuned, busnesau, colegau, lleoedd o addoliad a llawer o sefydliadau eraill ledled Cymru. Er bod y cynllun yn cael ei alw'n Wenyn Gyfeillgar, mae ynghylch yr holl beillwyr, nid gwenyn yn unig.

Nid yw Maria'n newydd i'r fenter; hi oedd un o'r aelodau a'i sefydlodd pan gafodd ei greu yn 2013 o'r gwaith ar Gynllun Gweithredu Peillwyr Cymru

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf>

Maria oedd yr Hyrwyddwr dros Gaerdydd ac meddai "Roeddwn i'n arwain rhai grwpiau a lleoliadau gwych i gael statws Caru Gwenyn yng Nghaerdydd, yn amrywio o ysgolion, rhandiroedd a hyd yn oed caffi, ond rwy'n meddwl taw fy hoff un oedd Ynys Echni – daeth hyd yn oed Channel 4 i Gymru i'n fflmio ni."

Gall unrhyw un fod yn Caru Gwenyn; y cyfan sydd ei angen yw lle sy'n cael ei reoli gan gadw peillwyr yn y cof, waeth pa mor fach neu fawr. Mae Maria'n arbennig o awyddus i gael rhagor o safleoedd diddorol yn yr ardal o dan ei hadain - bwyty efallai neu gerddi cymunedol, atyniad ymwelwyr neu bwl. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y cynllun, ewch i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Caru Gwenyn

<https://www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn>

Os oes gennych safle mewn golwg ac eisiau trafod gyda Maria, cysylltwch â hi ar NatureRecovery@beacons-npa.gov.uk

Maria Golightly, Hyrwyddwr Gwenyn Gyfeillgar



Gwobr Arch-seren Eco i Reolwr Fflyd Awdurdod y Parc

Cafodd Kevin Booker o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei enwi'n Archseren Eco yng Ngwobrau mawreddog Fleet World Prydain Fawr 2021.

Meddai Kevin Booker, "mae'n fraint wirioneddol cael fy nghydnabod yn y gwobrau hyn, am yr ail flwyddyn yn olynol. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith i wneud yn siŵr mai gennym ni y mae'r fflyd wyrddaf posibl. Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu fflyd o 25 o gerbydau ar gyfer wardeiniaid a staff. Mae 100 y cant o gerbydau'r fflyd erbyn hyn yn gwbl drydanol neu'n hybrid plygio i mewn. Ein nod yw fod yn cyrraedd gollyngiadau sero erbyn 2025. Cyn bo hir, bydd ddau dractor trydan yn unig yn cyrraedd ein canolfannau ymwelwyr, ar gyfer cynnal tiroedd, a byddwn hefyd yn newid offer sy'n defnyddio tanwydd gyda rhai y gellir eu hail wefr, ble bo'n bosibl."

Yn gweithio gyda Pod Point, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno mannau gwefru hygrych i'r cyhoedd ymysg ei adnoddau. Mae yna 17 o fannau gwefru eisoes wedi'u gosod a bwriedir gosod rhagor yn 2021.

Canfod rhagor am Barciau Cenedlaethol

Mae Parciau Cenedlaethol y DU wedi lansio taflen newyddion e-bost misol newydd – Cardiau Post o'r Parciau.

Pob mis, mae'n cynnwys cyfweiliad gyda ffigur cyhoeddus neu actifydd ynghylch sut roedden nhw'n cael eu hysbrydoli gan natur a beth maen nhw'n ei wneud o ganlyniad. Mae yna hefyd erthyglau oddi wrth bobl sy'n gweithio yn y Parciau Cenedlaethol ynghylch lleoliadau neu deithiau arbennig mewn Parc sydd wedi bod yn ddylanwad mawr ar eu bywydau. Bydd dolenni i gynigion arbennig rheolaidd oddi wrth bartneriaid yn ogystal â newyddion am ddiwyddiadau arbennig hefyd.

I dderbyn eich Cerdyn Post misol o'r Parciau, defnyddiwch y ddolen isod. Cewch anfon y ddolen hon ymlaen hefyd at ffrindiau, sefydliadau partner ac aelodau o'r teulu er mwyn iddyn nhw hefyd gael eu hysbrydoli.

<https://mailchi.mp/nationalparks/postcardsfromthepark>



Rheoli'r rhododendron ar y Gribarth

Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol - diweddariad

Adroddiad gan David Jermyn o'r tîm Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol:

Er gwaethaf cyfnod clo Covid-19 arall yn yr hydref, oedd wedi oedi'r gwaith maes am yr ail dro yn 2020, parhaodd y Tîm Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol i weithio ar; a chwblhau, gwahanol agweddau o Brosiect Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol yn nalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Tawe ym Mannau Brycheiniog.

Yn Nyffryn Wysg Uchaf, daeth y contractwr arbenigol yn ôl i drin Clymchwyn Siapan rhwng Llanhamlach a Llanspyddid ger Aberhonddu a llwyddodd i gwblhau rhan gyntaf o'r rhaglen driniaeth.

Ymhellach i fyny Afon Wysg, daliwyd ati i chwilio am ffynhonnell Ffromlys yr Himalaya. Yn ystod arolygon o lan yr afon, canfuwyd pocedi bychain yn bennaf ar lan dde yr afon islaw Pont Senni, ond ni chafwyd unrhyw arwydd o ffromlys – yn ffodus iawn bydd y chwilio'n yn parhau y tymor hwn gan fod y Prosiect Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol wedi cael ei ymestyn tan ddiwedd mis Medi 2021. Hoffai'r tîm fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl dirfeddianwyr y cysylltwyd â nhw fel rhan o'r arolwg ac a roddodd, yn garedig, fynediad i'w tir.

Yng Nghwm Tawe Uchaf, ymunodd y tîm Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol gyda Thîm Warden Ardal y Gorllewin, ar drydydd ymweliad â llethr Cribarth (ardal lle mae llawer o hen chwareli garreg galch a thramffyrdd yn uchel uwchben Parc Gwledig Craig-y-nos) i ddal ati i reoli'r rhododendron, llwyn bythol wyrdd sy'n tyfu ar yr Heneb Gofrestredig. Llawer o ddiolch i Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, Wyn a Steffan, am eu holl help. Rydym yn falch o adrodd fod rhan gyntaf y rhaglen reoli wedi'i chwblhau'n llwyddiannus. Bydd gwaith dilyn i fyny'n cael ei wneud ar y safle yn gynnar yn yr hydref i drin darnau bach o ail dyfiant.

Ymhellach i fyny'n cwm, roedd y gwaith o chwilio am ffynhonnell y chlymchwyn yn parhau. Gyda'r Prosiect Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol wedi'i ymestyn erbyn hyn am dymor maes arall, gallwn barhau i chwilio a, chyda chymorth tirfeddianwyr lleol, ddechrau rheoli ffynhonnell y ffromlys yn ardal Glyntawe.

Sut allwch chi helpu'r prosiect?

Cewch helpu drwy adael i ni wybod lle mae rhywogaethau anffrodorol goresgynnol yn tyfu. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod neu anfon yr wybodaeth yn uniongyrchol at y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth ar www.bis.org.uk neu drwy ffonio 01874 610881. Gallwch hefyd gyflwyno'ch gwybodaeth lle mae Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol yn tyfu i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth drwy ddefnyddio WiReD. Cofiwch hefyd fod gan y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol ap i chi gofnodi unrhyw ganfyddiadau o Rywogaethau Anffrodorol Goresgynnol ar eich ffôn symudol pan fyddwch allan am dro.

Os ydych â diddordeb mewn helpu gyda'r prosiect neu os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Beverley.Lewis@beacons-npa.gov.uk Ffôn: 07854 997 508.

Cofiwch, gallwch helpu i warchod yr amgylchedd drwy fabwysiadu'r ymgyrch genedlaethol 'Gwirio, Glanhau, Sychu' ac archwlio eich dillad, esgidiau, beiciau, canŵs, wialen pysgota, cŵn a cheffylau am unrhyw ddarnau bach o blanhigion neu hadau ar ôl ymweld a chyn eich ymweliad nesaf â'r cefn gwlad. Bydd hynny'n helpu i atal rhywogaethau anffrodorol goresgynnol a phlâu ac afiechydon rhag lledaenu o un ardal i'r llall.

Adolygiad newydd yn anelu at rwydwaith cryf o safleoedd sy'n gyfoethog mewn bywyd gwylt

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi llwyddo i gael grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN) o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Beth yw Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur? Ardal o dir sy'n gyfoethog mewn bywyd gwylt o dan reolaeth bositif, ond nad yw'n gymwys i gael statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'n cael ei dynodi am ei rôl mewn cadwraeth natur ac yn cael ei ystyried yn y broses cynllunio.

Pam gwneud y prosiect hwn nawr? Bydd y prosiect yn paratoi rhestr gadarn o safleoedd ar gyfer eu cynnwys yn yr adolygiad presennol o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae rhywfaint o'r deddfwriaeth wedi dyddio felly rydym eisiau adolygu'r system i wneud yn siŵr ei bod yn addas ar gyfer deddfwriaeth a pholisi presennol. Bydd rhai safleoedd yn cael eu hychwanegu at y rhestr a bydd rhai yn cael eu tynnu oherwydd, efallai, nad ydyn nhw, bellach, yn gymwys.

Beth ydym ni eisiau ei gyflawni? Rydym ni eisiau rhestr gyfredol o safleoedd ar draws y Parc Cenedlaethol o dan reolaeth bositif a gweithio gyda thirfeddianwyr i helpu i ddylanwadu ar y broses gynllunio. Yr allwedd yw "mwy, gwell a mwy cydlynedig" ac rydym ni eisiau creu rwydwaith cryf o safleoedd sy'n gyfoethog mewn bywyd gwylt ar draws y Parc Cenedlaethol.

Bydd y prosiect yn rhedeg am un flwyddyn ac yn ystod y cyfnod hwnnw, byddwn yn:

- Datblygu partneriaeth waith gyda thirfeddianwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth i Bowys a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth i adolygu'r rhestr bresennol o SBCN.
- Adolygu'r meini prawf presennol ar gyfer yr amrywiaeth o SBCN
- Adolygu'r meini prawf ar gyfer dewis safle er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda deddfwriaeth wedi'i ddiwygio
- Cysylltu â thirfeddianwyr er mwyn adolygu'r rheolaeth o SBCN



- Darparu cyngor ar reoli cynefinoedd a chynhyrchu portffolios rheoli ar gyfer yr holl safleoedd.

- Gweithio gyda thirfeddianwyr i ddynodi Safleoedd newydd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur.

Beth nesaf? Byddwn yn cysylltu ac yn gweithio gyda thirfeddianwyr sydd piau'r safleoedd presennol. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ebrill 2021. Bydd y newyddion diweddaraf ar gael yma neu cysylltwch â Nicky Davies, Ecolegydd nicola.davies@beacons-mpa.gov.uk Ffôn: 07854 997 514



Angen Grant? Allwn ni helpu?

Mae arian ar gael trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, Cronfa Ein Treftadaeth, Cronfa Ynni Gwyrdd ar gyfer Adnoddau Cymunedol neu Gronfa Gymunedol Adfer Natur



Cronfa Datblygu Cynaliadwy



Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund

Rydyn ni'n cynnig arian ar gyfer prosiectau a fydd yn datblygu ac yn profi ffyrdd o fyw'n fwy cynaliadwy ledled y Parc Cenedlaethol. Fe allwn ni helpu i ddatblygu a chefnogi prosiectau a fydd o fudd cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol i'r gymuned.

Cronfa Gymunedol Dadgarboneiddio / Cronfa Ynni Gwyrdd

Hyd at £5,000 o arian at waith arbed ynni neu ynni adnewyddol yn eich adnoddau cymunedol.




Cronfa Grant Treftadaeth

Rydyn ni'n cynnig grantiau o hyd at £5,000 i unigolion a grwpiau cymunedol at waith cadw a gwella adnoddau Hanesyddol ein trefi a'n pentrefi. Cynllun cadwraeth yw hwn, sy'n ceisio hyrwyddo trwsio'n briodol ac yn brydlon adeiladau neu strwythurau o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol, neu wella'r dehongliad o asedau hanesyddol yn nhrefi a phentrefi'r Parc Cenedlaethol.

Cronfa Gymunedol Adfer Natur

Os oes gennych chi syniad am brosiect i helpu natur i adfer, fe fyddwn ni wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyh ac efallai y byddwn ni'n gallu cynnig arian i'w symud ymlaen. Diolch i'r Partneriaeth Natur Leol, fe allwn ni gynnig hyd at 100% o'r arian sydd ein angen, unrhyw swm o £50 i £500. Bydd yn rhaid i ni gael gwybod sut y bydd yn helpu natur i adfer neu eich cymuned i gysylltu â natur ac, yn ddelfrydol, bydd gennych chi wirfoddolwyr.



I gael rhagor o wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r grantiau hyn neu i drafod eich syniad cysylltwch â ceri.bevan@beacons-mpa.co.uk neu helen.roderick@beacons-mpa.gov.uk

Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellir sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-mpa.gov.uk
neu ffoniwch 07854 997563

Gwasanaethau Cynllunio

Ewch i www.bannaubrycheiniog.org/cynllunio/ neu ffoniwch y Dderbynfa ar 07973 781479 neu 07973 781510

Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chynngor am y Gronfa hon ewch i <https://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/> neu cysylltwch naill ai â

Helen Roderick ar 07790 944 443
neu Ceri Bevan ar 07854 997 578
Ebstiwrch
helen.roderick@beacons-mpa.gov.uk
ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i'r chwe mis nesaf:

2 Mehefin 21
25 Awst 21
3 Tachwedd 21


Awyr Dywyll Bannau Brycheiniog - Podlediadau Syllu ar y Sêr

Gwrandewch ar ein podlediadau syllu ar y sêr gan Nick Busby, arsyllwr a ffotograffydd seryddol o Gymdeithas Seryddol Wysg ym Mannau Brycheiniog.

Mae'r sgwrs y mis hwn ynghylch triongl y gaeaf, sy'n cynnwys y sêr disgleiriaf mewn chwech o'r cytserau gaeaf mwyaf amlwg, ac mae'n ein helpu i'w canfod a'u hadnabod. Yn y podlediad hwn, byddwn yn ymweld ag Orion, Taurus, Auriga, Gemini, Canis Leiaf a Canis Fwyaf.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwrandao ar y podlediad a'i ddilyn ar siart sêr neu ap ffôn yn gyntaf i ddod yn gyfarwydd â lle mae'r gwahanol bethau cyn mynd allan ac edrych i fyny!

<https://www.breconbeacons.org/cy/pethau-iw-gwneud/gweithgareddau/anturiaethau-syllu-ar-y-ser/podlediad-syllu-ar-y-ser>



© GEORGINA HARPER

Dilynwch y côd cefn gwlad!

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England wedi cyhoeddi Côd Cefn Gwlad newydd, ar ei newydd wedd. Mae'r Côd yn galluogi pobl o bob oedran a chefnidir i fwynhau'r manteision iechyd a llesiant y mae natur yn ei gynnig, tra'n parhau'r amgylchedd a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Gellir gweld y Côd newydd yma: <https://naturalresources.wales/days-out/the-countryside-codes/the-countryside-code/?lang=cym> mae fideo fer ar gael yma: <https://www.youtube.com/watch?v=MaeO4NUNk0>

Gofynnir am eich sylwadau ar y Cynllun Rheoli nesaf

Ydych chi erioed wedi meddwl sut y bydd y Parc yn edrych ymhen 20 mlynedd? Ydych chi'n meddwl sut fydd Brexit a newid hinsawdd yn effeithio ar ei nodweddion arbennig? Oes gennych chi farn ynghylch beth ddylai'r Awdurdod ei wneud i ofalu am y Parc Cenedlaethol yn ystod y 5, 10 neu hyd yn oed y 50 mlynedd nesaf?

Mae aelodau a staff yr Awdurdod yn ceisio cynnig atebion wrth baratoi ein Cynllun Rheoli nesaf ar gyfer yr ardal. Mae'r Cynllun Rheoli'n ddogfen y mae'n rhaid i ni ei chynhyrchu yn ôl y gyfraith, mae'n dangos sut y bydd yr Awdurdod yn ceisio gweithio gydag eraill i sicrhau'r dyfodol gorau posibl ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Rydym wedi cynnal ychydig o waith cychwynnol i ddiffinio beth rydym ni'n feddwl yw'r problemau y mae'r Parc Cenedlaethol yn eu hwynebu, ynghyd â chyfres ehangach o amcanion ar gyfer y dyfodol a gweledigaeth bosibl.

Nawr, rydym yn gofyn am eich sylwadau chi ynghylch a ydym ar y llwybr cywir. Mae'r ymgynghoriad ar gael <https://www.beacons-mpa.gov.uk/wp-content/uploads/Welsh-NPMP21-Vision-and-Objectives-links-working.pdf>

ac yn rhedeg hyd at 26 Mai. Mae'r ddogfen hefyd yn egluro sut y gallwch chi gymryd rhan yng Nghynllun Rheoli'r dyfodol drwy wirfoddoli i fod ar un o'n Paneli Dinasyddion. Os hoffwch ragor o wybodaeth, ffoniwch 01874 620429 neu e-bostiwrch npmp21@beacons-mpa.gov.uk



Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Babell Fawr Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau, ysgolion, elusennau a sefydliadau dielw eraill o fewn y Parc Cenedlaethol ddefnyddio'r Babell Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu, cysylltwch â Ceri Bevan ar 07854997578
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

Digwyddiadau

Gwiriwch gyda gwefan Llywodraeth Cymru am fanylion am gyfyngiadau diweddaraf yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau.
<https://llyw.cymru/cyfnod-clo-lleol>

Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau ar-lein ar hyn o bryd. Am fanylion pellach am weithgareddau a digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol ewch i www.breconbeacons.org/cy/whats-on

Mai 22 – 6 Mehefin 2021

Gŵyl Geoparc Byd Eang UNESCO Fforest Fawr

Mae Swyddog Datblygu Geoparc yr Awdurdod ac eraill yn trafod syniadau ar gyfer ychydig o sgysiau a theithiau cerdded yn ystod pythefnos arferol yr Wyl. Gallai'r rhain fod ar lein ac yn dibynnu ar gyfyngiadau diogelwch Covid-19. Bydd rhagor o wybodaeth ar wefan y Geoparc yn nes at yr amser.

<https://www.geoparcyyfforestfawr.org.uk/gwyl-geoparc-2021/>



DAN SANTILLO

Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Gallwch gysylltu â ni ar @croesobannaub



Dilynwch ni drwy Facebook
www.facebook.com/bannaubrycheiniog



Gweler y fideos ar ein sianel Youtube
www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA



www.instagram.com/breconbeacons

A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau. Mae holl staff y Parc Cenedlaethol bellach yn gweithio gartref ac mae'r brif swyddfa yn Aberhonddu (Plas y Ffynnon) ar gau i'r cyhoedd.

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	07973 781479 07973 781 510
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	07854 997 520
Cyfarwyddwr Pontio	Stephanie Evans	angharad.hawkes@beacons-npa.gov.uk	07854 997 533
Cyfathrebu	Bronwyn Lally	communications@beacons-npa.gov.uk	07854 997 555
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	07854 997 578 / 07790 944 443 / 07854997530
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	07854 997 516
Cynllun Rheoli	Helen Lucocq	helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk	01874 620429
Ecoleg	Rebecca Price/ Nicola Davies	rebecca.price@beacons-npa.gov.uk/ nicola.davies@beacons-npa.gov.uk	07854 997 537/ 07854 997 514
Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	07976 812 832
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	07854 997 557
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	07966 523 763
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	07966 523 763
Gwirfoddoli	Amanda Brake	amanda.brake@beacons-npa.gov.uk	07854997561

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod
am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	EIFION.JONES@BEACONS-NPA.GOV.UK	07854 997 563
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	ENQUIRIES@BEACONS-NPA.GOV.UK	07973 781 479 07973 781 510
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	HELEN.LUCOCQ@BEACONS-NPA.GOV.UK	01 874 620442
Technoleg Gwybodaeth	Tîm TG	IT@BEACONS-NPA.GOV.UK	07973 781 479 07973 781 510
Treftadaeth	Alice Thorne Archaeoleg Janet Poole Cadwraeth Adeiladau	ALICE.THORNE@BEACONS-NPA.GOV.UK JANET.POOLE@BEACONS-NPA.GOV.UK	07854 997 575 ebostiwch os gwelwch yn dda
Twristiaeth gynaliadwy	James Lawrence	JAMES.LAWRENCE@BEACONS-NPA.GOV.UK	07854 997558
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	JUDITH.HARVEY@BEACONS-NPA.GOV.UK	07854 997510



Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB

DEWCH I FANNAU BRYCHEINIOG. YN DDIOGEL

BYDDWCH YN SICR

o gydymffurfio gyda chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru

CADWCH BELLTER CYMDEITHASOL

arhoswch y pellter cywir oddi wrth bobl eraill pob amser a pheidiwch â heidio. Os yw'n teimlo fod gormod yno, mae gormod yno

BYDDWCH YN GEFNOGOL

mae'n rhaid i ni gydweithio i wneud yn siŵr fod twristiaeth Bannau Brycheiniog yn ddiogel i'r staff, i'r gymuned ac i ymwelwyr fel ei gilydd.

BYDDWCH DDIOGEL

eich cadw chi eich hunan a phobl eraill yn ddiogel ddylai fod eich blaenoriaeth bennaf

BYDDWCH YN GALL

cynlluniwch ymlaen llaw, cofiwch na fydd yr holl gyfleusterau ar agor

BYDDWCH YN GADARN

ynghylch hylendid dwylo da

BYDDWCH YN SENSITIF

o'n hamgylchedd unigryw, naturiol – cofiwch gadw at y Codi Cefn Gwlad a mynd â'ch ysbwriel gartre gyda chi

BYDDWCH YN SYNHWYROL

os oes gennych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref unrhyw symptomau o gwbl o COVID-19, peidiwch ag ymweld – arhoswch gartref am o leiaf 14 diwrnod

#DewchiFannauBrycheiniogYnddiogel



BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS

ENI PARC CENEDLAETHOL | OUR NATIONAL PARK